**LC383**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (Ardollau) 2001**

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gyflwyno ardollau a amnewidiwyd i'w gynghorau cyfansoddol ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am y flwyddyn ariannol 2001-2002.

Fe fydd yr ardollau hyn yn cymryd lle'r rhai a gyflwynwyd o'r blaen ar gyfer 2001-2002, i ganiatáu cydymffurfio â Gorchymyn Amrywio Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru 2001 a ddileodd aelodaeth Rhondda Cynon Taf o'r Pwyllgor.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o bwyntiau sydd wedi'u cymryd i ystyriaeth bellach yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

11 Rhagfyr 2001